**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-937
Ein cyf/Our ref LG/00039/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

14 Chwefror 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr ynghylch Deiseb P-05-937 Dylid stopio berwi cramenogion yn fyw (cimychiaid, crancod, cimychiaid afon, corgimychiaid etc).

Rydym yn dilyn hynt y Bil Lles Anifeiliaid (Ymdeimlad) ("y Bil") yn frwd. Bil Llywodraeth y DU yw hwn ac nid yw ei ddarpariaethau'n gymwys i Gymru. Mae'r Bil yn cydnabod bod anifeiliaid yn fodau ymdeimladol ac yn creu'r Pwyllgor Ymdeimlad Anifeiliaid fel dull atebolrwydd sy'n anelu at sicrhau bod Gweinidogion y DU yn rhoi sylw dyledus i'w hanghenion lles wrth lunio a gweithredu polisi Llywodraeth y DU.

Cyhoeddodd Ysgol Economeg Llundain (LSE) a Gwyddoniaeth Gwleidyddol adolygiad a oedd yn dwyn y teitl '*Review of the evidence for sentience in decapod crustaceans and cephalopod molluscs*' ym mis Tachwedd 2021. Canfu'r awduron fod tystiolaeth gref fod molysgiaid ceffalopod a chramenogion dectroed yn gallu teimlo, ac argymhellwyd y dylid eu cynnwys yng nghyfraith lles anifeiliaid y DU mewn ffordd benodol. Cafodd y Bil ei ddiwygio wedyn gan Lywodraeth y DU i ddod â'r infertebratau hyn i gwmpas y Bil.

Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'u cymheiriaid yn Defra ar gynnydd Bil Llywodraeth y DU a chynnwys cramenogion dectroed a molysgiaid ceffalopod. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 fod yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn ystyried yr argymhellion yn adolygiad yr LSE, ynghyd ag ymchwil, dadansoddiadau a thystiolaeth berthnasol eraill, mewn modd rhesymol a chymesur, yng nghyd-destun ein hagenda bolisi ein hunain ar gyfer Cymru.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**